



Cais i Newid Amblecs DAB Lleol: Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ymgynghoriad ynghylch ymestyn ardal drwyddedig
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ionawr 2017

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 28 Chwefror 2017

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gofyn am sylwadau ynghylch cais i newid yr ardal a wasanaethir gan wasanaeth amblecs radio lleol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Drwy wasanaeth amblecs radio mae modd i orsafoedd radio digidol DAB ddarlledu. Rhaid i Ofcom ymgynghori cyn penderfynu a ddylai gytuno ar gais o'r fath ai peidio. Y ddogfen hon ydy'r ymgynghoriad, ac mae'n cynnwys cwestiynau er mwyn helpu'r rheini sy'n ymateb i fframio eu hymatebion.

Mae'r newid ardal sy'n cael ei gynnig yn un cwbl weinyddol, gan na fyddai'n effeithio ar y gwasanaethau mae modd eu derbyn ar hyn o bryd yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru nac ar ddarpariaeth y gwasanaethau hynny.

Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ydy 28 Chwefror 2017.

Cynnwys

Adran

- 1 Crynodeb gweithredol
- 2 Manylion a gwybodaeth gefndir

Tudalen

- 1
- 2

Atodiad

- 1 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn
- 2 Egwyddorion ymgynghori Ofcom
- 3 Cwestiynau'r ymgynghoriad
- 4 Cais gan MuxCo Wales

Tudalen

- 5
- 8
- 10
- 11

Adran 1

Crynodeb gweithredol

- 1.1 Mae deddfwriaeth yn caniatáu i weithredwr amlblecs radio lleol wneud cais i Ofcom i ymestyn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu o dan ei drwydded.
- 1.2 Mae Ofcom wedi cael cais gan MuxCo Wales Limited ynghylch ei amlblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r cais yn gofyn am ymestyn yr ardal drwyddedig i'r de ac i'r dwyrain o'r ardal bresennol, er mwyn cynnwys dinas Abertawe.
- 1.3 Mae Adran 54A o Ddeddf Darlledu 1996 yn rhoi'r pŵer i Ofcom gytuno ar newid o'r fath ar yr amod bod rhai gofynion penodol yn cael eu diwallu.
- 1.4 Cyn penderfynu a ddylai gytuno ar y cais hwn ai peidio, mae'r gyfraith yn mynnu ei bod yn rhaid i Ofcom ofyn am sylwadau gan unrhyw bartïon sydd â diddordeb. Yr ymgynghoriad hwn ydy'r cyfle hwnnw. Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno sylwadau ydy dydd Iau 28 Chwefror 2017; ni ystyrir unrhyw sylwadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.
- 1.5 Mae'r statud perthnasol yn datgan y caiff Ofcom gytuno ar y cais dim ond os ydym yn fodlon na fyddai'r newid yn culhau'r ystod o wasanaethau rhaglenni DAB lleol sydd ar gael i wrandawyr mewn ffordd annerbyniol yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Nid yw MuxCo yn cynnig newid y gwasanaethau sydd ar gael.
- 1.6 Ar yr amod bod y cais yn diwallu telerau'r statud, caiff Ofcom ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu a yw am gytuno ai peidio ar y cais. Ein polisi cyffredinol yw caniatáu ceisiadau gan drwyddedigion amlblecs radio lleol er mwyn newid eu hardaloedd trwyddedig ar yr amod ein bod yn fodlon:
 - i. y byddai gwneud hynny'n golygu cynnal neu hyrwyddo datblygu darlledu sain digidol yn y DU ar wahân i drwy loeren;
 - ii. mae cynlluniau darpariaeth arfaethedig y trwyddedai'n foddhaol;
 - iii. mae'r trwyddedai'n gallu cynnal y gwasanaeth trwyddedig, a:
 - iv. mae digon o drefniadau diogelu ar waith i ddiogelu hawliau a buddiannau gorsafoedd sy'n cael eu cludo ar yr amlblecs, a hawliau a buddiannau gweithredwyr amlblecsau eraill (a'r gorsafoedd maent yn eu cludo).
- 1.7 Yr ydym yn gofyn am sylwadau ynghylch a ddylai Ofcom gymeradwyo'r cais gan MuxCo Wales i ymestyn ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio lleol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Adran 2

Manylion a gwybodaeth gefndir

- 2.1 Mae trwyddedau amlblecs radio lleol yn cael eu dyfarnu gan Ofcom er mwyn gallu darparu gorsafoedd radio a mathau eraill o wasanaethau (ee data) ar y llwyfan DAB (Darlledu Sain Digidol). Mae'r sawl sy'n dal trwydded amlblecs radio lleol yn gyfrifol am, ymysg pethau eraill, sicrhau darpariaeth yn yr ardal lleol, a hwyluso darparu ystod o wasanaethau radio i wrandawyr yn yr ardal honno. Mae gwasanaethau amlblecs radio lleol yn cludo gwasanaethau radio masnachol a gwasanaethau Lleol neu Genedlaethol y BBC.
- 2.2 Cafodd y drwydded amlblecs radio lleol ar gyfer ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru ei dyfarnu ym mis Mawrth 2008 i MuxCo Wales Limited. Dechreuodd y drwydded pan lansiwyd y gwasanaeth amlblecs ym mis Awst 2013, ac fe'i dyluniwyd i wasanaethu ardal sy'n cael ei diffinio fel siroedd sir Benfro, sir Gaerfyrddin, Ceredigion a rhan o Bowys. Yr 'ardal drwyddedig' ydy'r enw ar yr ardal hon.
- 2.3 Bydd gwasanaeth amlblecs radio lleol yn sicrhau darpariaeth i gymaint o'i ardal drwyddedig ag sy'n rhesymol ymarferol, ond mae'n annhebyg y bydd modd derbyn y signal ym mhob lleoliad yn yr ardal honno. Mae'r ardal mae gwasanaeth amlblecs radio lleol yn darparu ar ei chyfer go iawn yn ei 'ardal drwyddedig' yn cael ei galw yn 'ardal darpariaeth'.
- 2.4 Yr ydym wedi cael cais gan MuxCo Wales Limited yn gofyn i amrywio'r ardal drwyddedig ar gyfer amlblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r cais hwn yn Atodiad 4. Nid yw MuxCo Wales yn cynnig newid ei ardal darpariaeth.
- 2.5 O dan adran 54A o Ddeddf Darlledu 1996, a fewnosodwyd gan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2010, caiff Ofcom amrywio trwydded amlblecs radio lleol drwy:
 - a) amrywio'r amledd a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth trwyddedig;
 - b) lleihau'r ardal neu'r ardal lleol lle mae'n rhaid i'r gwasanaeth trwyddedig fod ar gael; neu
 - c) ymestyn yr ardal neu'r ardal lleol i gynnwys ardal neu ardal lleol gyfagosar yr amod bod gofynion a bennir yn y ddeddfwriaeth yn cael eu diwallu.
- 2.6 Mae'r gofynion hyn yn cynnwys ei bod yn rhaid i Ofcom fod wedi cael cais gan ddeilydd y drwydded, a'i bod yn rhaid i'r cais hwn gynnwys cynllun technegol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth y cynigir ei ddarparu o dan y drwydded gan nodi, yn benodol:
 - a) yr ardal neu'r ardal lleol a fyddai yn ardal darpariaeth y gwasanaeth;
 - b) yr amserlen y byddid yn ei dilyn er mwyn cyflawni'r ddarpariaeth honno; a
 - c) y dulliau technegol y byddid yn eu defnyddio i gyflawni hynny.
- 2.7 Mae adran 54A hefyd yn datgan cyn penderfynu a ddylid cytuno ar gais gan deilydd trwydded amlblecs radio lleol i newid ardal drwyddedig a/neu amledd, rhaid i Ofcom

ofyn am sylwadau ynghylch y cais gan unrhyw bartion sydd â diddordeb. Yr ymgynghoriad hwn ydy'r cyfle hwnnw mewn perthynas â'r newid y mae MuxCo Wales yn gofyn amdano yng nghyswllt gwasanaeth amlblecs radio lleol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

- 2.8 Yn olaf, mae'r ddeddfwriaeth yn datgan, cyn penderfynu a ddylid cytuno ai peidio ar gais i newid ardal drwyddedig neu amledd, ei bod yn rhaid i Ofcom fod yn fodlon na fyddai'r newid yn culhau'r ystod o wasanaethau rhaglenni radio digidol lleol sydd ar gael i wrandawyr yn yr ardal y mae'r gwasanaeth amlblecs radio lleol perthnasol i fod ar gael iddi, cyn yr amrywiad arfaethedig.
- 2.9 Mae trwyddedai'r amlblecs wedi datgan mai ei gais yw "ymgorffori'n ffurfiol ddarpariaeth [ar gyfer dinas a sir Abertawe] y mae'r amlblecs eisoes yn ei darparu". Nid oes unrhyw gynnig i newid y rhaglenni a fydd ar gael ar amlblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru na'i ddarpariaeth.
- 2.10 Mae modd i Ofcom benderfynu peidio â chytuno ar gais MuxCo Wales hyd yn oed os yw'n fodlon mewn perthynas â'r maen prawf a bennir yn y ddeddfwriaeth. Mewn geiriau eraill, caiff Ofcom ddefnyddio ei ddisgresiwn i gytuno ar y cais ai peidio ar yr amod bod y cais yn diwallu telerau'r statud.
- 2.11 Ein polisi cyffredinol yw caniatáu cais gan drwyddedai i newid ei ardal drwyddedig ar yr amod ein bod yn fodlon:
- i. y byddai gwneud hynny'n golygu cynnal neu hyrwyddo datblygu darlledu sain digidol yn y DU ar wahân i drwy loeren;
 - ii. mae cynlluniau darpariaeth arfaethedig y trwyddedai'n foddhaol;
 - iii. mae'r trwyddedai'n gallu cynnal y gwasanaeth trwyddedig, a;
 - iv. mae digon o drefniadau diogelu ar waith i ddiogelu hawliau a buddiannau gorsafodd sy'n cael eu cludo ar yr amlblecs, a hawliau a buddiannau gweithredwyr amlblecsau eraill (a'r gorsafodd maent yn eu cludo).
- 2.12 Fel rhan o'i gais, mae MuxCo Wales wedi datgan ei farn ynghylch sut mae ei gais yn diwallu'r meini prawf hyn, fel a ganlyn:
- i) "drwy ganiatáu estyniad i MuxCo Wales Ltd i PPA cyfredol Canolbarth a Gorllewin Cymru, byddwn yn cynyddu nifer yr oedolion yn y PPA 111,639, oedolion 15+. Byddai nifer yr oedolion sy'n cael eu gwasanaethu gan yr amlblecs yn cynyddu o 135,078 (62.9% o'r boblogaeth oedolion) i 245,144 (75.1%). Byddai nifer y ffyrdd sy'n cael eu gwasanaethu gan yr amlblecs yn cynyddu o 711 km (53.8%) i 894 km (62.3%)."
 - ii) cyflwynwyd cynllun technegol i'w asesu.
 - iii) "Mae MuxCo Wales Ltd yn weithredwr amlblecs sefydledig sydd wedi gweithredu amlblecs DAB Canolbarth a Gorllewin Cymru yn llwyddiannus ers mis Awst 2013. Mae MuxCo Wales Ltd yn berchen i Nation Broadcasting Ltd sydd hefyd yn gweithredu'r drwydded amlblecs DAB leol ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru ac sydd wedi buddsoddi yn amlblecsau Gogledd Ddwyrain Cymru a gorllewin Swydd Gaer a Suffolk".

- iv) Mae MuxCo yn gallu “cadarnhau bod trefniadau diogelu mewn lle i ddiogelu hawliau a buddiannau gorsafoedd sy’n cael eu cludo ar yr amlblecs, ac na fydd effaith ar amlblecsau DAB lleol eraill yn Ne Cymru. Yr ydym wedi trafod y newidiadau arfaethedig, nad ydynt yn effeithio ar delerau ac amodau unrhyw gytundebau cludo presennol, â darparwyr gwasanaethau ar yr amlblecsau hyn. Fel rhan o’r trafodaethau ehangach â diwydiant, yr ydym yn credu bod digon o drefniadau diogelu mewn lle i ddiogelu hawliau a buddiannau gweithredwyr amlblecsau eraill a’r gwasanaethau maent yn eu cludo”.
- 2.13 Yr ydym yn gofyn am sylwadau ynghylch i ba raddau mae’r cais gan MuxCo Wales yn diwallu unrhyw rai o’r meini prawf polisi neu’r cyfan (gweler Atodiad 3 i weld rhestr o gwestiynau penodol).

Atodiad 1

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

- A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn **3pm 28 Chwefror 2017**.
- A1.2 Mae'n well o lawer gennym gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-3/local-dab-change/>. Rydyn ni hefyd yn darparu dalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>) ar gyfer ymatebion sy'n cael eu hanfon dros e-bost neu bost; a fydddech chi cystal â llenwi hon er mwyn ein helpu i gynnal eich cyfrinachedd, ac mae'n cyflymu ein gwaith. Nid oes angen i chi wneud hyn os ydych chi'n ymateb drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.
- A1.3 Os ydy eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fydddech chi cystal â'i anfon dros yr e-bost i commercial.radio@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>).
- A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt.
- Local DAB Multiplex Change Request
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
- A1.5 Os hoffech chi gyflwyno'ch ymateb mewn fformat gwahanol, (ee ffeil sain neu fideo), cysylltwch â Paul Boon ar 020 7981 3616 neu anfonwch neges e-bost i paul.boon@ofcom.org.uk.
- A1.6 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.
- A1.7 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A1.8 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 2. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

- A1.9 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Paul Boon ar 020 7981 3616, neu dros yr e-bost paul.boon@ofcom.org.uk

Cyfrinachedd

- A1.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydyn ni'n cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddan nhw'n dod i law.
- A1.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A1.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.13 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use>

Y camau nesaf

- A1.14 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yng ngwanwyn 2017.
- A1.15 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/email-updates/>

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A1.16 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.
- A1.17 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Steve Gettings
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Ffôn: 020 7981 3601

E-bost steve.gettings@ofcom.org.uk

Atodiad 2

Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A2.1 Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

A2.2 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddogon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.3 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.5 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.6 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom ydy'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A2.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.8 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddan nhw'n dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom**MANYLION SYLFAENOL**

Teitl yr ymgynghoriad: Cais i Newid Amblecs DAB Lleol

At: Paul Boon

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim byd	<input type="checkbox"/>	Enw/manylion cyswllt/teitl swydd	<input type="checkbox"/>
Yr ymateb cyfan	<input type="checkbox"/>	Sefydliad	<input type="checkbox"/>
Rhan o'r ymateb	<input type="checkbox"/>	Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau?	

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

Atodiad 3

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1 Ydych chi'n meddwl y byddai'r newid a gynigir i'r ardal drwyddedig hon yn culhau'r ystod o wasanaethau rhaglenni DAB sydd ar gael yn yr ardal amblecs lleol dan sylw mewn ffordd annerbyniol (Canolbarth a Gorllewin Cymru)? Eglurwch y rheswm dros eich safbwynt.

C2 Ydych chi'n meddwl y byddai'r newid sy'n cael ei gynnig yn y cais yn helpu i hyrwyddo datblygu darlledu sain digidol lleol ar wahân i drwy loeren? Eglurwch y rheswm dros eich safbwynt.

C3 Ydych chi'n meddwl bod y cynllun darpariaeth sy'n cael ei gynnig gan y trwyddedai'n foddhaol? Eglurwch y rheswm dros eich safbwynt.

C4 Ydych chi'n meddwl y bydd y trwyddedai'n gallu cynnal ei wasanaeth amblecs lleol os caiff ei gais ei ganiatáu? Eglurwch y rheswm dros eich safbwynt.

C5 Ydych chi'n meddwl bod digon o drefniadau diogelu ar waith i ddiogelu hawliau a buddiannau gorsafodd sy'n cael eu cludo ar amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru a hawliau a buddiannau gweithredwyr amblecsau eraill a'r gorsafodd maent yn eu cludo, os caniateir unrhyw newid i'r ardal drwyddedig? Eglurwch y rheswm dros eich safbwynt.

C6 Ydych chi'n credu bod unrhyw sail arall y dylai Ofcom ei defnyddio i gymeradwyo neu i beidio â chymeradwyo'r cais hwn i amrywio? Eglurwch y rheswm dros eich safbwynt.

Atodiad 4

Cais gan MuxCo Wales



Neil Stock
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London
SE1 9HA

28th November 2016

Dear Neil,

Request to extend the PPA of the West & Mid Wales multiplex

MuxCo Wales Ltd is making a request to Ofcom to extend the PPA of the West & Mid Wales local DAB multiplex to include the City and County of Swansea.

The West & Mid Wales multiplex launched on 30th August 2013 using transmitters at Preseli, Greenhill, Carmel and Kilvey Hill. The former sites are located within Pembrokeshire and Carmarthenshire, whilst the latter is within the City and County of Swansea.

Under the Framework Agreement, it is planned that additional sites will be introduced at Carmarthen and Fishguard.

MuxCo Wales requests Ofcom to approve the change for the following reasons:

- It will formally incorporate coverage that the multiplex already delivers in the multiplex licence.
- It will make the multiplex more attractive to potential service providers thereby enhancing the multiplex's financial viability. In turn, this will help MuxCo Wales meet the additional costs of transmission which it will incur under the Framework Agreement expansion.

In accordance with Section 54A of the Broadcasting Act 1996 (as amended by the Digital Economy Act 2010), MuxCo Wales Ltd asks that Ofcom consider this request against the following statutory criterion:

The application must include a technical plan detailing the proposed coverage area, estimated timetable and the technical means by which it would be achieved;

- A map detailing the current and proposed PPA boundaries is attached as Annex 1.
- A map showing coverage from the launch and Step 1 sites is attached as Annex 3.

The extension would be calculated to maintain or promote the development of digital sound broadcasting otherwise than by satellite;

- By granting MuxCo Wales Ltd an extension to the current West & Mid Wales PPA, we will increase the number of adults within the PPA by 111,639 adults 15+.
- The number of adults served by the multiplex would increase from 135,078 (62.9% of the adult population) to 245,144 (75.1%).
- The number of roads covered by the multiplex would increase from 711 km (53.8%) to 894 km (62.3%).
- The proposed change will not alter the services carried on the multiplex and therefore will not narrow the range of programmes available by way of local digital sound programme services to persons living in the multiplex area.

the licensees have the ability to maintain the licensed service;

- MuxCo Wales Ltd is an established multiplex operator that has successfully operated the West & Mid Wales DAB multiplex since August 2013. MuxCo Wales Ltd is owned by Nation Broadcasting Ltd who also operate the local DAB multiplex licence for North West Wales and has investments in the North East Wales & West Cheshire and Suffolk multiplexes.

there are sufficient safeguards in place to protect the rights and interests of stations carried on the multiplexes and the rights and interests of other multiplex operators (and the stations they carry).

- We can confirm that there are safeguard in place to protect the rights and interests of stations carried on the multiplex, and that there will be no impact on other local DAB multiplexes in South Wales.
- We have discussed the proposed changes, which have no impact on the terms and conditions of any existing carriage agreements, with service providers on these multiplexes. As part of the wider industry discussions, we believe that there are sufficient safeguards in place to protect the rights and interests of other multiplex operators and the services they carry.

If there is any further information we can provide, please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read "G. Watson".

Gregory Watson

Annex 1 - Map detailing the current PPA boundary and the proposed new PPA boundary






Annex 2 – Population and Coverage Numbers

Current Boundary			Proposed Boundary		
<u>1% Time Interference</u>			<u>1% Time Interference</u>		
	In PPA	%		In PPA	%
Roads (km)	574	43.4%	Roads (km)	766	55.5%
Indoor	115,153	53.6%	Indoor	233,899	71.6%
<u>Normal Propagation</u>			<u>Normal Propagation</u>		
	In PPA	%		In PPA	%
Roads (km)	711	53.8%	Roads (km)	894	62.3%
Indoor	135,078	62.9%	Indoor	245,144	75.1%
Total population in boundary: 214,845			Total population in boundary: 326,484		
Total Roads in boundary: 1,322km			Total Roads in boundary: 1,433km		

Annex 3 – Coverage delivered by the multiplex (existing transmitters)

Indoor



Outdoor

